| | | |
|---|---|---|
| **Cofnodion cyfarfod 8 Hydref 2024 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa am 7 yn yr hwyr** | | |
| **PRESENNOL** | | |
| Daniel Williams | Emyr Gareth | |
| Dafydd Huws | Cynog Prys | |
| Eifion Williams | Meleri Jones | |
| **1.0** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| | Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Eifion Williams a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Elen Gwenllïan Llŷr Evans, Elenid Glyn a Nel Huws. | |
| **1.1** | Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd. | |
| **1.2** | Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2025-2026 - derbyniwyd. | |
| **1.3** | Sul y Cofio - dywedodd y Clerc bod cais wedi mynd ar Gyngor Gwynedd ar gyfer cael gorchymyn i gau'r ffordd am ychydig ar y 10fed o Dachwedd a bod trefniadau mewn lle i'r archddeacon David Parry i ddod i wasanaeth. Y Cynghorydd Eifion Williams i drefnu rheoli'r traffig. | |
| **1.4** | Ymgynghoriad Cylchdro y Faenol - fe drafodwyd y cynllun, derbyniwyd y cynllun ac er bod cyfyngiad cyflymdra o 50 m.y.a. i'w gyflwyno ar y dyfodol o'r Felinheli roedd y Cyngor o'r fan dylai gwaith diogelwch pellach gael ei wneud ar y groesfan i'r beicwyr ar ochr y faenol i ochr Nant y Garth a'r un peth ar gyfer y groesfan ger cyffordd Lon seilo. Y Clerc i anfon y sylwadau. | |
| **1.5** | Trelar Chwarae Gwynedd- er nad oedd y cyngor yn gallu rhoi caniatâd gan fod y cae chwarae yn perthyn i Gyngor Gwynedd roeddynt yn gweld ei fod yn dda o beth. Er hynny gofynnwyd i'r Clerc anfon antynt i wybod pa fath o weithgareddau ac i ba oedran. | |
| **1.6** | Clwb Chwaraeon Seilo - derbyniwyd gwybodaeth bod y 10K ychwannegol oedd angen ar y clwb wedi ei dderbyn bellach gan y FAW. Roedd hyn yn newydd da ond er hynny trafodwyd bod angen cadw'r ffens os gellir ond yn enwedig y polion oedd ar y safle er mwyn ei ddefnyddio ar gyfer Cae Chwarae ar Ffordd Lan y Môr. Trafodaeth wyneb yn wyneb gyda swyddogion y Clwb a'r Cyngor Cymuned i'w drefnu er mwyn trafod datblygu'r Cae ar Lan y Môr. Hyn i ddigwydd cyn diwedd y prosiect (Ionawr 2025). Mae angen adborth yn ôl at y clwb bod mynediad i'r cyhoedd yn bwysig. Bydd angen trefnu trafodaethau gyda Cyngor Gwynedd. | |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| | Dim | |
| **3.0** | **CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL** | |
| **3.1** | Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis medi 2024 - derbyniwyd. | **CLERC** |
| **4.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| **4.1** | Cadarnhawyd cofnodion mis Medi 2024. | **CLERC** |
| **4.2** | Toiledau - disgwyl copi o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y contractwr. | **CLERC** |

| | | |
|---|---|---|
| **4.3** | Cynllun Rheoli Traffig - angen penderfynu ar ddyddiadau mae'r Cynghorydd Daniel Williams a'r Cynghorydd Emyr Gareth yn Rhydd. | **CLERC** |
| **4.4** | Biniau Cae Pêl droed Ffordd Lan y Môr a ger Safle Moria/Ger y Siop - disgwyl adroddiad gan Swyddog Cyngor Gwynedd ar ôl yr ymweliad safle. Y Clerc i anfon nodyn i'w atgoffa. | |
| **4.5** | Logo - y Cynghorydd Daniel Williams i gyd-gordio gyda Dewlwedd er mwyn dylunio logo ar gyfer y Cyngor. | **CLERC** |
| **4.6** | Cyfarfod safle i'r Jeti a'r Slip wedi ei drefnu. Ymweliad safle yn cymryd lle ar y 11eg o Hydref am hanner dydd (llanw isel). Y Cynghorydd Daniel Williams i adrodd yn ôl wedi'r cyfarfod. | **CLERC** |
| **4.7** | Llwybr Cerrig yr Afon - gwaith ar y ffens wedi ei wneud a hefyd mae giât newydd yn ei lle. Arolwg Llwybrau - mae angen gweithredu arolwg ar y llwybrau ar gyfer eleni. Y Pwyllgor i drefnu cerdded y llwybrau ar adrodd yn ôl mis nesaf. | |
| **4.8** | Cae Pêl Droed Lan y Môr - trafodwyd y mater o'r ffens yn eitem 1.6. Bydd angen edrych i mewn i ba fathau o offer y byddent yn gallu eu cyflwyno yn y lleoliad mae o law. Y Clerc i ddechrau trafodaethau gyda Cyngor Gwynedd. | |
| **4.9** | Gampfa - trafodwyd mai'r safle gorau fyddai'r tir ger parc cadw cychod bach - fe drafodwyd y mater yma gyda'r Adran fwrdeistrefol Cyngor Gwynedd ond nid oedd y Swyddogion yn rhy hoff o ddefnyddio'r Lleoliad. Ar hyn o bryd nid yw'r Cyngor Cymuned yn sicr pwy sydd yn gyfrifol am y lleoliad unai bwrdeistrefol neu yntau'r adran forwrol. Y Cynghorydd Daniel Williams i ofyn y cwestiwn i Swyddogion Morwrol pan fyddant mewn cyfarfod safle ar y 11eg o Hydref 2024. | **CLERC** |
| **5.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| | Rhif Cais : C24/0746/20/CC Lleoliad: Port Dinorwic Marina, Hen Gei Llechi, Y Felinheli, LL56 4JN Bwriadl: Cais ar gyfer torri coed wedi eu gwarchod gan Gorchymyn Diogelu Coed- DIM GWRTHWYNEBIAD | |
| **6.0** | **RHEOLAETH** | |
| **6.1** | Gwaith ar y wefan yn parhau. | |
| **7.0** | **ASEDAU** | |
| | Dim adroddiad | |
| **8.0** | **LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD** | |
| | Dim adroddiad | |
| **9.0** | **NEUADD GOFFA A CHLOC** | |
| **9.1** | Dim gwybodaeth ychwanegol i'r mis diwethaf. | |
| **10.00** | **CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL** | |
| | Dim Adroddiad | |
| | **Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 9.00 yn y r hwyr.** | |

| | |
|---|---|
| **Llofnod:** | **Dyddiad: 18/11/24** |